



## RHOWCH EICH BARN AR WASGFEYDD CYLLIDEB Y CYNGOR 2016 - 2019

### CRYNODEB HAWS EI DDARLLEN\*

Mae gennym lai o arian oherwydd:

- Toriadau mewn grantiau oddi wrth y llywodraeth
- Costau cyflogau uwch
- Mwy o alw am wasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion
- Gwasgfeydd oherwydd chwyddiant

Rydym eisoes wedi arbed £25 miliwn yn y 2 flynedd ddiwethaf, ond mae angen gwneud mwy. Rhaid arbed o leiaf £40 miliwn dros y 3 blynedd nesaf.

Bydd toriadau'n debygol o effeithio ar y gwasanaethau y byddwch CHI'n eu defnyddio.

Rhowch o'ch amser i Roi Eich Barn os gwelwch yn dda

Dychwelwch erbyn **Dydd Llun 4 Ionawr 2016** os gwelwch yn dda

*\*Dyma fersiwn gryno haws ei darllen o'r ddogfen ymgynghorol lawn*

**Edrychwch ar y syniadau a restrir isod a thiciwch i ddweud a ydych chi'n meddwl eu bod yn 'dderbyniol' neu'n 'annerbyniol'**

**CODI MWY AM BETHAU**

<b>Beth yw'r syniad?</b>	<b>Faint mae'n gostio i redeg y gwasanaeth hwn?</b>	<b>Faint fydd hyn yn ei arbed yn 2016/2017?</b>	<b>Derbyniol?</b>	<b>Annerbyniol?</b>
1). Cynyddu treth y Cyngor o 4.5%	N/A	£1.9m		
2). Cynyddu treth y Cyngor o 5%	N/A	£2.1m		
3). Cynyddu treth y Cyngor ar Ail Gartrefi (nid oes modd ei weithredu tan 2017/2018 ond gallai arbed tua £2.5m)	N/A	N/A		
4). Cynhyrchu £208,000 yn rhagor o ffioedd meysydd parcio dros y 3 blynedd nesaf	Mae'n codi £519k y flwyddyn	Byddai'n codi £48,000 yn fwy		
5). Codi £42.68 am gasglu hyd at 10 eitem o wastraff mawr o'r cartref (megis matresi, oergelloedd, soffas ac ati)	£753,000	£45,000		
6). Cynyddu costau Gwasanaeth Hamdden o 3%	£1.6miliwn	£112,000		
7). Codi am neilltuo llyfr llyfrgell	N/A	£5,000		
8). Codi mwy am ginio ysgol (cynyddu'r gost i £2.50 erbyn 2018/2019)	N/A	£200,000		

**Dywedwch wrthym ba effaith y gallai'r newidiadau hyn eu cael arnoch chi, eich teulu, busnes neu gymuned**

## GWNEUD LLAI O RAI PETHAU

Beth yw'r syniad?	Faint mae'n costio i redeg y gwasanaeth hwn?	Faint fydd hyn yn ei arbed yn 2016/2017?	Derbyniol?	Annerbyniol?
1). Lleihau'r arian sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau bws nad ydyn nhw'n cael llawer o ddefnydd	£818,000	£48,000		
2). Peidio â gwneud gwaith cynnal a chadw ar bontydd a strwythurau eraill mor aml	£558,000	£27,000		
3). Peidio â gwneud gwaith cynnal a chadw ar bethau sy'n helpu i warchod yr arfordir rhag erydu i ffwrdd a gorlifo mor aml.	£157,000	£7,000		
4). Torri'n ôl ar ein gwasanaeth sy'n helpu gyda rheoli a gofalu am gŵn, er mwyn i ni wneud dim mwy na'r hyn y mae'r gyfraith yn dweud sy'n rhaid i ni wneud.	£158,000	£50,000		
5). Peidio â thorri'r borfa mewn parciau a mannau agored mor aml	£906,000	£42,000		
6). Peidio â gwneud gwaith cynnal a chadw ar heolydd mor aml ag y byddwn ni'n ei wneud ar hyn o bryd	£4,026,000	£260,000		
7). Peidio â thrwsio heolydd mor aml ag y byddwn ni'n ei wneud ar hyn o bryd	£2,693,000	£174,000		
8). Casglu bagiau duon unwaith y mis. Casglu bagiau oren, gwastraff bwyd, gwydr a nwyddau hylendid unwaith bob pythefnos (nid oes modd ei weithredu tan 2017/2018 ond gallai arbed tua £170,000)	£1,874,000	N/A		
9). Cau rhai Canolfannau Hamdden ar wyliau banc a dros wyliau'r Nadolig – pan fyddan nhw'n dawel.	£1,605,000	£10,000		
10). Cau llyfrgelloedd a chanolfannau gwybodaeth yn Hwlfordd ac Aberdaugleddau ar wyliau banc – pan fyddan nhw'n dawel.	N/A	£3,000		

## GWNEUD LLAI O RAI PETHAU

Beth yw'r syniad?	Faint mae'n costio i redeg y gwasanaeth hwn?	Faint fydd hyn yn ei arbed yn 2016/2017?	Derbyniol?	Annerbyniol?
11). Lleihau faint o arian byddwn ni'n ei wario ar lyfrau llyfrgell, DVDau ac ati	£219,000	£15,000		
12). Cael llai o athrawon i bob disgybl mewn ysgolion cynradd. Mae gennym fwy o athrawon i bob disgybl yn ein hysgolion cynradd na'r un Cyngor arall.	£15,922,000	£750,000		
13). Dim ond rhoi'r swm o arian y mae Llywodraeth Cymru'n dweud sydd yn rhaid ei roi i Ysgolion (dim rhagor ar gyfer chwyddiant ac ati)	£69,332,000	£2,500,000		
14). Peidio â glanhau'r heolydd na gwagio biniau sbwriel mor aml	£1,531,000	£90,000		
15). Diffodd rhai goleuadau stryd yn llwyr	£921,000	£60,000		
16). Peidio ag ateb y ffôn mor gyflym yn ein Canolfan Gyswilt Ffôn (60 eiliad yn lle 20 eiliad)	£1,063,000	£87,000		
17). Lleihau faint o arian sy'n cael ei gadw i'r neilltu ar gyfer delio â phroblemau dros y gaeaf (fel graeanu'r ffyrdd ac ati)	£329,000	£20,000		

**Dywedwch wrthym ba effaith y gallai'r newidiadau hyn eu cael arnoch chi, eich teulu, busnes neu gymuned**

## NEWID Y FFORDD Y BYDDWN NI'N GWNEUD PETHAU

Beth yw'r syniad?	Faint mae'n gostio i redeg y gwasanaeth hwn?	Faint fydd hyn yn ei arbed yn 2016/2017?	Derbyniol?	Annerbyniol?
18). Gofyn i bobl fynd â'u gwastraff ac ailgylchu i le canolog i'w gasglu (yn hytrach na chasglu o dai unigol)	£1,847,000	£ ddim yn gwybod		
19). Neuadd y Sir i ddod yn swyddfa ar gyfer gwasanaethau syn delio'n uniongyrchol â'r cyhoedd (symud gwasanaethau eraill i rywle arall)	N/A	£ ddim yn gwybod		
20). Darparu mwy o wasanaethau wyneb yn wyneb mewn llai o leoliadau (Canolfannau Gwasanaeth i Gwsmeriaid, llyfrgelloedd, canolfannau hamdden, canolfannau addysg oedolion a chymunedol). Ble fyddai angen iddynt fod?	N/A	£ ddim yn gwybod		
▪ Crymych	-	-		
▪ Abergwaun	-	-		
▪ Hwlfordd	-	-		
▪ Aberdaugleddau	-	-		
▪ Neyland	-	-		
▪ Penfro	-	-		
▪ Doc Penfro	-	-		
▪ Dinbych-y-pysgod	-	-		
▪ Saundersfoot	-	-		
▪ Arberth	-	-		
21). Gofyn am gymorth y gymuned i redeg llyfrgelloedd yn Arberth, Trefdraeth, Penfro a Saundersfoot	£80,000	£17,000		
22). Sefydlu llyfrgelloedd, amgueddfeydd (Scolton Manor) ac archifau fel Ymddiriedolaeth elusennol annibynnol	N/A	£ ddim yn gwybod		
23). Sefydlu gwasanaethau hamdden fel Ymddiriedolaeth elusennol annibynnol	N/A	£ ddim yn gwybod		

## NEWID Y FFORDD Y BYDDWN NI'N GWNEUD PETHAU

Beth yw'r syniad?	Faint mae'n costio i redeg y gwasanaeth hwn?	Faint fydd hyn yn ei arbed yn 2016/2017?	Derbyniol?	Annerbyniol?
24). Gofyn i gwmni arall redeg ein gwasanaethu arian a budd-daliadau	N/A	£ ddim yn gwybod		
25). Gofyn i gwmni arall redeg ein gwasanaethau claddu ac Amlogfa	N/A	£ ddim yn gwybod		
26). Gofyn i gwmni arall redeg ein gwasanaethau arlwyo (ysgolion, pryd ar glud, ffreutur Neuadd y Sir)	N/A	£ ddim yn gwybod		
27). Gofyn i gwmni arall redeg ein gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu	N/A	£ ddim yn gwybod		
28). Adolygu pecynnau cefnogi gofal yn y cartref y bydd pobl yn eu derbyn. Annog defnydd effeithiol o wasanaethau ail-alluogi er mwyn sicrhau y gall pobl aros yn eu tai eu hunain cyhyd â phosib.	£12,549,000	£820,000		
29). Lleihau faint o bobl sy'n mynd i ofal preswyl. Annog defnydd effeithiol o wasanaethau ail-alluogi, gwasanaethau tele-ofal a gwasanaethau cefnogol y sector wirfoddol	£17,338,000	£815,000		
30). Datblygu darpariaeth gofal maethu er mwyn i ofalwyr maeth lleol allu darparu mwy o ofal seibiant	£477,000	£300,000		
31). Dod â gwasanaethau cefnogi ysgolion arbenigol ynghyd mewn un tîm (e.e. iaith a lleferydd, sbectrwm awtistig ac ati) Gweithio gydag ysgolion i gynyddu'u gallu i ddarparu cefnogaeth ar eu pennau'u hunain	£1,858,000	£130,000		
32). Scolton Manor a'r Parc Gwledig. Cynyddu incwm, er mwyn iddo ddod yn fwy hunangynhaliol (gellid ond gwneud arbedion llawn ar ôl 2016/2017 ond gallai arbed £158,000)	£158,000	£12,845		

## NEWID Y FFORDD Y BYDDWN NI'N GWNEUD PETHAU

Beth yw'r syniad?	Faint mae'n costio i redeg y gwasanaeth hwn?	Faint fydd hyn yn ei arbed yn 2016/2017?	Derbyniol?	Annerbyniol?
33). Datblygu ffyrdd mwy hyblyg o ddarparu llety dros dro i bobl ddigartref	£288,000	£63,000		

**Dywedwch wrthym ba effaith y gallai'r newidiadau hyn eu cael arnoch chi, eich teulu, busnes neu gymuned.**

**Gwnewch unrhyw sylwadau eraill yma**

## Amdanoch chi

**Ydych chi'n ateb fel** (ticiwch bob un sy'n berthnasol os gwelwch yn dda)

- Unigolyn       Aelod o staff y cyngor       Aelod etholedig o'r Cyngor  
 Cynrychiolydd busnes neu sefydliad lleol (nodwch beth os gwelwch yn dda)
- .....

**Beth yw eich iaith gyntaf?** (ticiwch un yn unig os gwelwch yn dda)

- Saesneg       Cymraeg

Arall, nodwch beth os gwelwch yn dda

.....

**Ydych chi'n** (ticiwch un yn unig os gwelwch yn dda)

- Wryw       Benyw       Gwell gen i beidio â dweud

**Ydych chi'n** (ticiwch un yn unig os gwelwch yn dda)

- 16 neu iau  
 17 – 24  
 25 – 64  
 65 – 74  
 75 neu hŷn  
 Gwell gen i beidio â dweud

**Oes gennych blant sy'n 18 oed neu iau sy'n ddibynnol arnoch?** (ticiwch un yn unig os gwelwch yn dda)

- Oes       Nac oes       Gwell gen i beidio â dweud

**Ydych chi'n darparu gofal cyson, di-dâl, sylweddol i berthynas, cyfaill neu gymydog sy'n methu ag ymdopi gartref heb gymorth oherwydd salwch, oedran neu anabledd?** (ticiwch un yn unig os gwelwch yn dda)

- Ydw       Nac ydw       Gwell gen i beidio â dweud



**Ydy eich gweithgareddau dyddiol yn cael eu cyfyngu oherwydd problem iechyd neu anabledd sydd wedi para, neu y disgwylir iddo bara, o leiaf 12 mis? (ticiwch un yn unig os gwelwch yn dda)**

Ydyn     Nac ydyn                     Gwell gen i beidio â dweud

**Beth yw eich crefydd? (ticiwch un yn unig os gwelwch yn dda)**

Dim crefydd

Cristion (pob enwad)

Bwdist

Hindŵ

Iddew

Mwslim

Sikh

Gwell gen i beidio â dweud

Unrhyw grefydd arall (nodwch beth os gwelwch yn dda)

.....  
**Beth yw eich grŵp ethnig? (ticiwch un yn unig os gwelwch yn dda)**

Gwyn (Cymro, Sais, Albanwr, Gwyddel, Prydeiniwr)

Gwyn arall, gan gynnwys Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig

Grŵp ethnig cymysg / lluosog

Asiaidd / Asiaidd Prydeinig

Du / O Affrica /O'r Caribî / Du Prydeinig

Unrhyw grŵp ethnig arall (nodwch beth os gwelwch yn dda)

.....  
Unwaith y byddwch wedi cwblhau'r holiadur ewch ag ef i lyfrgell, Gwasanaethau i Gwsmeriaid neu Ganolfan Hamdden, neu dychwelwch at: Cyngor Sir Penfro, Marchnata 2D. Neuadd y Sir. Hwlfordd, SA61 1TP erbyn **04/12/16**

**Diolch am roi o'ch amser**